

Parchu eraill

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn:rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **15/02/2019** i:

Cangen Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: CCD.SAS@gov.wales

Parchu eraill

Cwestiwn 1 – Ydy'r canllawiau gwrth-fwlio yn cael eu hesbonio'n glir? Os nad ydyn nhw, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes yna agweddau rydych chi'n eu hoffi'n arbennig ac, os felly, pam?

Sylwadau ategol

Mae ein sylwadau isod yn canolbwyntio (oni ddywedir yn wahanol) at y canllawiau drafft ar gyfer ysgolion (nid y rhai sydd wedi'u targedu at ddisgyblion).

Ar y cyfan, mae'r Canllawiau drafft yn glir ac yn gryno.

Meysydd gellid eu gwella

Awgrymwn fod angen mwy o ofal a manylder wrth drafod troseddau casineb. Mae angen gochel rhag 'crimineiddio' heb eisiau, ond eto mae angen bod mor glir â phosib ynghylch ble mae'r ffin. Teimlwn nad yw'n canllawiau drafft yn rhoi ddigon o gyfarwyddyd neu gyngor digon clir a chadarn ynghylch y materion sensitif hyn.

Mae brawddeg olaf paragraff 6.9 yn aneglur ei ystyr (yn y Gymraeg a'r Saesneg) a gofynnwn a oes ei angen o gwbl?

Hoffi'n arbennig

Rydym yn cymeradwyo'r pwyslais ar ieithwedd gofalus sy'n trin pawb yn y broses â pharch – gan gynnwys y person sydd wedi gwneud y bwlio, gan bwysleisio'r angen i gynnig cefnogaeth briodol iddyn nhw hefyd.

Yn yr un modd, mae UCAC yn croesawu'r pwyslais ar sicrhau fod delio â bwlio yn rhan o fframwaith ac ethos ehangach yr ysgol, gan gynnwys ymagwedd ysgol gyfan at les (9.22), ac ymagwedd gadarnhaol o hyrwyddo perthnasau o barch o fewn amgylchedd cynhwysol. Byddai lle i bwysleisio hyn ymhellach, ac o bosib yn gynharach yn y ddogfen.

Mae'n ddefnyddiol cael diffiniad clir a chryno o fwlio (a'r hyn sydd ddim yn fwlio) i'w ddefnyddio'n gyson ledled Cymru. Mae'r diffiniad yn ymddangos yn gwbl resymol.

Croesawn y pwyslais ar yr angen i staff gael hyfforddiant cyson ynghylch y materion hyn (10.5).

Canllawiau 5-11 mlwydd oed

Ar y cyfan, mae'r rhain yn glir ac yn briodol i'r oedran dan sylw.

Teimlwn y dylid tynnu fwy o sylw at y paragraff olaf 'Os bydd yna fwlio, dylai'r ysgol wrando....all hi ddim ei stopio.' Mae'r paragraff hwn yn allweddol, ac mi fyddai'n fuddiol petai modd ei amlygu mewn modd gweledol.

Mae'r pennawd ar y dudalen olaf 'Beth i'w wneud os wyt ti'n dweud wrth yr ysgol ac yn teimlo nad yw hi'n dy helpu' yn anaddas gan fod rhai o'r adnoddau yn rhai sy'n gyfochrog â gweithredu (effeithiol) gan yr ysgol, neu'n berthnasol i blant nad ydynt yn teimlo bod modd iddynt hysbysu oedolyn, felly pan nad yw'r ysgol yn ymwybodol o'r broblem. Awgrymwn yn hytrach 'Beth i'w wneud os oes angen cymorth pellach'.

Cwestiwn 2 – Ydy'r canllawiau gwrth-fwlio yn hawdd eu defnyddio? Os nad ydyn nhw, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes yna agweddau rydych chi'n eu hoffi'n arbennig ac, os felly, pam?

Sylwadau ategol

Mae'r drefn yn rhesymegol ac yn rhwydd ei ddilyn. Er, mae lleoliad Pennod 13 yn teimlo'n chwithig – efallai y dylai ddod yn gynharach neu'n hwyrach yn y canllaw.

Un peth fyddai'n ychwanegu sylweddol iawn at ddefnyddioldeb y canllawiau fyddai **polisi enghreifftiol**. Mi fyddai hynny'n symud gam i gyfeiriad awgrym Comisiynydd Plant Cymru i sefydlu polisi/strategaeth genedlaethol. Ar hyn o bryd, rhaid i bob ysgol fynd ati o'r cychwyn i lunio'i pholisi gwrth-fwlio ei hun, ble, mewn gwirionedd, bydd rhannau helaeth iawn o unrhyw bolisi enghreifftiol yn berthnasol i'r rhan fwyaf o ysgolion. Cytunwn yn gyffredinol â'r penawdau a nodir ar gyfer polisi yn 10.1, ond teimlwn nad yw'r Canllawiau drafft yn cynnwys ddigon o fanylder ynghylch tair elfen yn benodol sef:

- Arwyddion y gall plentyn fod yn dioddef bwllo
- Sut y bydd bwllo'n cael ei atal gan gynnwys ar siwrneiau rhwng yr ysgol a'r cartref
- Sut y bydd yr ysgol yn ymateb i achosion o fwlio

Teimlwn mai'r adran wannaf o'r Canllawiau drafft yw **Pennod 12: Ymateb pan fydd yna fwlio**. Nid oes digon o fanylder yma ynghylch sut dylai/gallai ysgolion ymateb o ran camau gweithredu penodol. Awgrymwn y dylid ymhelaethu'n sylweddol iawn ar y bennod hon. Un enghraifft fyddai y dylid cynnwys mwy o gyngor ynghylch beth i'w gofnodi, sut a phryd (ynghylch y bwllo ei hun, ond hefyd ynghylch pwy sydd wedi bod yn rhan o'r trafodaethau a phryd, beth a gytunwyd fel camau gweithredu, pryd gweithredwyd y camau a gan bwy, effeithiau'r camau sydd wedi'u cymryd ac ati); gan gynnwys cyngor ynghylch sut i ymdrin â gwybodaeth bersonol a sensitif iawn (gyda phwy i'w rhannu, neu i ba raddau i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol). Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun yr awgrym i ddefnyddio 'cefnogwyr cyfoed neu bydis wedi eu hyfforddi' - ble mae wir angen bod yn ofalus ynghylch cyfrinachedd. Mae angen gofal mawr o ran 'arbed tystiolaeth' i sicrhau nad yw staff yn peryglu eu hunain drwy fod ym meddiant deunydd amhriodol/troseddol e.e. lluniau anwedus.

Mae **Pennod 15: Ymyriadau** yn teimlo braidd yn denau hefyd. Mi fyddai'n fuddiol cynnwys llawer mwy o ffynonellau arbenigol ynghylch ymyriadau effeithiol posib, gan gynnwys mewn perthynas â mathau penodol o fwlio. Mae'r bennod yn symud ymlaen yn gyflym iawn at drafod yr hyn sy'n digwydd os nad yw ymyrraeth yn gweithio ac at bolisi cwynion – heb fod wedi mynd i ddigon o fanylder ynghylch dulliau ymyrraeth, a dulliau amgen os nad yw'r strategaethau cychwynnol wedi gweithio.

Teimlwn fod orgyffwrdd ac ail-adrodd diangen rhwng Penodau 14 a 17. Mewn gwirionedd, dylai Pennod 14 ymwneud yn fwy â chofnodi a monitro achosion penodol, gan adael yr elfen cofnodi at ddibenion gwerthuso ac atebolrwydd i Bennod 17. Mae'r prosesau'n rhai cwbl wahanol.

Mae angen **ail-edrych ar y fersiwn Cymraeg** am fod llawer o ieithwedd drwsogl a geirfa letchwith - i'r fath raddau fel bod angen troi at y fersiwn Saesneg i fod yn sicr o'r ystyr, mewn manau. Mae hyn, heb os, yn gwneud y canllawiau'n anoddach i'w defnyddio. Yn ogystal, mae angen cysoni termau ar draws y gwahanol fersiynau o'r canllawiau (hynny yw, 5-11; 11-18; ysgolion).

Mae angen ail-edrych ar y cyfieithiad drwyddi draw, ond dyma *rai* enghreifftiau – a rhai awgrymiadau:

Tudalen 2/3 (Termau):

ymochri (align) > cyd-fynd â'i gilydd

gwylieddydd (bystander) > tyst (neu 'pobl gerllaw' sy'n cael ei ddefnyddio yn y Canllaw 11-18 oed)

anneuaidd (non-binary) > nad yw'n ddeuol

hylif o ran rhywedd (gender fluid) > hyblyg o ran rhywedd

difenwi geiriol (verbal abuse) > camdriniaeth eiriol/ymosodiad geiriol

Trwy'r ddogfen

ymddygiad bwl'iad (bullying behaviour) > bwlio

pwrpasol (deliberate/intentional) > mae'n ddigon i ddweud '**bwriadol**' nid oes angen ail air; mae gan 'pwrpasol' ystyr gwahanol yn Gymraeg, sef 'addas at y pwrpas' felly mae'n gamarweiniol yn y cyd-destun hwn

ymosodedd perthynol (relational aggression) > nid yw'r ystyr yn glir/amlwg o gwbl yn y Gymraeg; mae angen meddwl am derm arall, hyd yn oed os oes angen defnyddio rhagor o eiriau

atafaelu (confiscate) > mynd â/cymryd

cyfoesi (update) > diweddarau

adrodd yn ôl (reporting) > **adrodd/hysbysu/rhoi gwybod** (ystyr *adrodd yn ôl* yw *feedback*)

Pwyntiau penodol

2.4 – Mae camgymeriad yn Gymraeg yma – dadlau ac ymladd sydd **ddim** fel arfer yn cynnwys y nodweddion canlynol; **mae** bwlio yn eu cynnwys

2.7 (troednodyn) – **ymladdfeydd (fights) > ymladd**

5.1 alltudio (ostracising) > ynysu

5.1 ym modd eithaf y raddfa (at the extreme end of the scale) > mewn achosion eithafol

5.5 Cam-gyfieithu yma; mae 'fe ddylid eu hystyried yn achosion o drosedd casineb' yn gwbl wahanol i 'could be considered incidents of hate crime'

6.5 Nid yw **Camgyfeirio** yn cyfleu **Exploitative** o gwbl > **Cam-fanteisio? Ecsbloetio?**

6.6. Yn yr un modd nid yw **Ystrywgar** yn cyfleu **Manipulative** > **Camddefnyddio? Manipiwleiddio?**

6.27 Mae angen ailedrych ar y cyfieithu fan hyn, ac mae rhan o'r frawddeg ar goll yn ogystal.

8.18 Nid yw **amlwg** yn cyfleu **explicit** yn y cyd-destun hwn

15.4 **cyfarch (address) > ymdrin â**

15.6 **arwahanu (isolate) > ynysu, gosod/cadw ar wahân**

Canllawiau plant a phobl ifanc 11-18

Er bod y cynnwys yn dderbyniol, gallai'r rhain fod yn rhwyddach i'w defnyddio drwy eu dylunio'n wahanol. Maent yn edrych yn rhy debyg i ddogfen bolisi, ac mi fyddai dylunio fwy atyniadol/arbenigol yn gwneud byd o wahaniaeth i ba mor atyniadol ydynt a pha mor rhwydd i'w defnyddio. Mi fyddai modd, er enghraifft, dynnu sylw at rai pwyntiau allweddol.

Er bod y fersiwn Cymraeg yn well ar y cyfan na'r fersiwn Cymraeg o'r canllawiau ysgol, mae dal i fod ambell i beth nad yw'n hwylus neu nad yw'n cyfleu'r ystyr yn gywir, er enghraifft:

- 'agos neu amlwg' ar gyfer 'intimate or explicit'
- 'tralodi' ar gyfer 'distressing' (beth am 'peri gofid'?)
- 'digroeso' ar gyfer 'unwanted' (beth am 'annerbyniol' neu 'annymunol'?)

Cwestiwn 3 – Ydy'r canllawiau gwrth-fwlio yn cysylltu'n iawn â meysydd polisi a chanllawiau ehangach ar bynciau ar wahân ond cysylltiedig? A oes yna gysylltiadau â meysydd cysylltiedig na soniwyd amdanynt yn y canllawiau y dylid rhoi sylw iddynt?

Sylwadau ategol

Gweler isod (cwestiwn 4) – gwerth cynnwys cyfeiriadau/cysylltiadau at ganllawiau/adnoddau sy'n ymwneud ag atal/delio gyda bwlio staff ysgolion.

Cwestiwn 4 – A ddylai meysydd eraill gael eu cynnwys yn y canllawiau gwrth-fwlio nad ydych chi wedi cael cyfle i wneud sylwadau arnynt uchod? Os felly, rhowch fanylion.

Sylwadau ategol

Mae angen bod yn glir - naill ffordd neu'r llall - a yw'r canllawiau hyn yn ymwneud â bwlio heblaw am rhwng disgyblion. Mae yna un cyfeiriad ym mharagraff 9.16 (y pwynt bwled olaf) at sicrhau bod rhieni'n ymwybodol nad yw 'bwlio staff yr ysgol trwy gyfryngau cymdeithasol yn dderbyniol' - ond dyma'r unig gyfeiriad yn y ddogfen at fwlio tuag at staff. Awgrymwn fod angen naill ai tynnu'r cyfeiriad hwn allan am nad yw'n berthnasol i'r canllawiau hyn (sy'n ymwneud â bwlio rhwng disgyblion yn unig) neu mae angen ymhelaethu'n sylweddol ar agweddau eraill ar fwlio staff. Os yr opsiwn cyntaf, mi ellid cyfeirio at ganllawiau eraill sy'n ymwneud â bwlio staff ysgolion.

Mi allai fod yn werth cyfeirio'n rhywle yn y ddogfen at wasanaethau arbenigol a all fod o gymorth wrth ymdrin â materion bwlio, megis gwasanaethau cwnsela, gwasanaeth seicolegydd addysg, unrhyw gymorth sydd ar gael drwy wasanaethau cymdeithasol, mudiadau allanol arbenigol.

Cwestiwn 5 – Ar raddfa o 1–5 (1 = 'dim o gwbl', 5 = 'defnyddiol iawn'), pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau gwrth-fwlio? A oes yna welliannau yr hoffech chi eu gweld nad ydych chi wedi cael cyfle i wneud sylwadau arnynt uchod? (Rhowch 'X' yn y bocs perthnasol.)

1	2	3	4	5
☐	☐	☒	☐	☐

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 6 – Pa un o'r teitlau canlynol yr hoffech chi ei weld yn cael ei roi ar y canllawiau gwrth-fwlio? (Dewiswch un opsiwn trwy roi 'X' yn y bocs perthnasol.)

Teitl arfaethedig:	Dewiswch un opsiwn
Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb: Atal a threchu bwlio	☐
Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb: Atal a herio bwlio	☐
Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a threchu bwlio	☐
Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a herio bwlio	☒
Dim un o'r opsiynau uchod – cynigiwch deitl yn y bocs Sylwadau ategol	☐

Sylwadau ategol

--

Pecyn cymorth gwrth-fwlio

Cwestiwn 7 – Ar raddfa o 1–5 (1 = ‘dim o gwbl’, 5 = ‘defnyddiol iawn’), pa mor ddefnyddiol yw’r pecyn cymorth gwrth-fwlio o ran cefnogi’r broses o roi’r canllawiau gwrth-fwlio ar waith yn ymarferol?

1	2	3	4	5
☐	☐	☐	☐	☐

Sylwadau ategol

Mae’r syniad o gael pecyn cymorth gydag adnoddau ychwanegol yn un da. Mae ganddo’r potensial i fod yn ddefnyddiol iawn, o’i gynllunio’n iawn a’i ddiweddarau’n gyson.

Cwestiwn 8 – Ar raddfa o 1–5 (1 = ‘dim o gwbl’, 5 = ‘hygyrch iawn’), pa mor hygyrch yw’r pecyn cymorth adnoddau?

1	2	3	4	5
☐	☐	☐	☐	☐

Sylwadau ategol

Eisoes, gyda nifer bychan o adnoddau/ffynonellau, nid yw’n rhwydd dod o hyd i’r hyn sydd fwyaf perthnasol, neu’r math o adnodd mae rhywun yn chwilio amdano. Efallai y dylid credu isadrannau/is-benawdau fel bod modd grwpio adnoddau o’r un math gyda’i gilydd a’u gwneud yn rhwyddach dod o hyd iddynt.

Ar hyn o bryd, awdur/ffynhonnell y wybodaeth neu adnodd sy’n dod gyntaf – efallai mai teitl yr adnodd ddylai ddod yn gyntaf, gyda’r awdur/ffynhonnell i ddilyn.

Bydd angen bod yn ofalus i beidio gorlwytho gan wneud y profiad yn ‘overwhelming’ ac yn amhosib dod o hyd i unrhyw beth.

Mae’r ffaith bod y rhestr cynnwys yn datgelu ei hun gam-wrth-gam yn ara’ deg, yn peri rhwystredigaeth – yn enwedig wrth fynd yn ôl ac ymlaen rhwng adrannau. Byddai’n well petai’r rhestr gyfan yn ymddangos ar unwaith; cadw pethau’n syml yw’r allwedd.

Cwestiwn 9 – A oes unrhyw adnoddau penodol yn y pecyn cymorth sy’n ddefnyddiol i chi? Os felly, nodwch pa rai a pham maen nhw’n ddefnyddiol.

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 10 – A oes unrhyw adnoddau penodol yn y pecyn cymorth nad ydynt yn ddefnyddiol i chi? Os felly, nodwch pa rai a pham nad ydynt yn ddefnyddiol.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 11 – Mae'r pecyn cymorth adnoddau yn dal i gael ei ddatblygu, a dim ond rhai o'r adnoddau rydym yn rhagweld fydd ar gael sydd ar gael fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. I lywio'r gwaith parhaus hwn, a oes unrhyw feysydd neu bynciau nad oes adnoddau ar gael ar eu cyfer ar hyn o bryd yr hoffech chi eu gweld yn cael eu cynnwys yn fersiwn derfynol y pecyn cymorth?

Sylwadau ategol

Byddai'n ddefnyddiol cynnwys y rhestr o asiantaethau all helpu plant a phobl ifanc yn uniongyrchol (fel sydd yn y canllawiau 5-11 ac 11-18) fel bod modd i staff ysgol gyfeirio plant a phobl ifanc atynt am gefnogaeth bellach yn ôl yr angen.

Canllawiau a phecyn cymorth gwrth-fwlio

Cwestiwn 12 – Hoffem gael eich barn ar yr effaith y byddai diwygio'r canllawiau gwrth-fwlio yn ei chael ar y Gymraeg, ac yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effaith y byddai hyn yn ei chael? Sut y gallai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu effeithiau negyddol gael eu lliniaru?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 13 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r canllawiau gwrth-fwlio diwygiedig gael eu trefnu neu eu newid:

- i) i gael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel na fyddant yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 14 – Rydym wedi gofyn amryw o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw bryderon nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni amdanynt.

Teimlwn y byddai'n briodol cyfnewid y term 'anghenion addysgol arbennig' i 'anghenion dysgu ychwanegol' erbyn hyn. Er nad yw pob elfen o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg wedi dod i rym eto, mae'r broses o drosglwyddo o'r naill derm/ieithwedd i'r llall

wedi hen ddechrau, ac wedi'i ymwreiddio mewn ysgolion. Byddai'n rhoi fwy o hirhoedledd i'r canllawiau, ac rydym yn gadarn o'r farn na fyddai'n peri unrhyw ddryswch yn y tymor byr.

Ble cyfeirir, yn y fersiwn Cymraeg, at bolisi Atal (hynny yw, polisi gwrthderfysgaeth), credwn y byddai'n fuddiol i ychwanegu ('*Prevent*') i'w wneud yn gliriach mai'r polisi penodol hwn sydd dan sylw, ac nid 'atal' mwy cyffredinol mewn perthynas â bwlio.

Efallai y byddai'n werth cynnwys cyfeiriad at werth 'theatr fforwm' fel dull/adnodd hynod effeithiol i drafod bwlio mewn ysgolion. Gallai fod yn gyfeiriad ym **Mhennod 11: Atal**, neu ddolenni yn y pecyn cymorth.

Ym mharagraff 15.3 awgrymwn newid (yn y Gymraeg a'r Saesneg) 'heb sôn o gwbl am enw'r un sydd wedi adrodd yn ôl am hynny' i 'heb sôn o gwbl am y digwyddiad penodol'.

Ym mharagraff 15.5 awgrymwn newid (yn y Gymraeg a'r Saesneg) 'y gosb' i 'yr ymateb'; mi allai hynny gynnwys cosb, ond nid yw'n rhagdybio hynny, ac mae'n fwy cydnaws â'r pwyslais ar ymchwilio i'r rhesymau dros y bwlio yn y lle cyntaf.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech chi i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma:

☐